CYFLEUSTERAU CAMPWS
PRESWYLFEYDD HAF MYFYRWYR

TELERAU AC AMODAU

1. GWESTEION

Mae Llety Haf Myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd ar gael ar gyfer y categorïau canlynol o westeion (bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth i ddangos cymhwysedd):

- Myfyrwyr sy'n astudio ym Mhrifysgol Caerdydd yn ystod cyfnod yr haf
- Unrhyw fyfyrwyr Prifysgol nad ydynt yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd yn ystod cyfnod yr haf (gan gynnwys myfyrwyr sy'n graddio)
- Darpar fyfyrwyr gyda chynnig i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd (rhaid iddynt fod yn 18 oed a hŷn)
- Gwesteion sy'n dod gyda myfyrwyr Prifysgol Caerdydd i Lety Haf Myfyrwyr (1 gwestai fesul myfyriwr yn unig, a rhaid iddo/iddi fod yn 18 oed neu'n hŷn) *Mae'r trefniant hwn yn addas ar gyfer gwesteion o genhedlaeth debyg h.y. nid ar gyfer gwesteion aeddfed/rhieni).*

Os nad yw un o'r categorïau uchod yn addas i chi, cysylltwch â'r Swyddfa Gynhadledd ar ffôn: +44 (0) 29 2087 4702 neu e-bost: conference@caerdydd.ac.uk a fydd yn gallu rhoi cyngor i chi ar lety arall Prifysgol Caerdydd.
Sylwer na fydd lle mewn llety'n cael ei gynnig i unrhyw fyfyriwr sydd â dyledion gyda'r Brifysgol.

2. PRESWYLFEYDD

- **Mae'r llety ar gael o ddydd Mercher, 20 Mehefin 2016 tan 10.00am ddydd Mercher, 12 Medi 2018 yn unig**
- Bydd unrhyw un sydd eisiau aros mewn llety am 30 noson neu'n hwy yn aros yn Llys Cartwright. Bydd unrhyw arhosiad byrrach yn Llys Senghennydd. Maent yn amodol ar argaeledd
- Mae'r holl breswylfeydd yn Llys Senghennydd yn ystafelloedd sengl gyda chyfleusterau a rennir. Rhennir ystafelloedd ymolchi a cheginau rhwng 5 o bobl
- Mae'r holl breswylfeydd yn Llys Cartwright yn ystafelloedd sengl gyda chyfleusterau a rennir. Rhennir ystafelloedd ymolchi rhwng 2 a 6 o bobl a cheginau rhwng hyd at 6 o bobl
- Yn amodol ar argaeledd, darperir lleoedd parcio am £1 y noson

3. ARCHEBION

I archebu lle:

- Llenwch y Ffurflen Archebu/Cytundeb Llety perthnasol a'i dychwelyd fel y nodir ar y ffurflen
- **Os oes angen tystiolaeth/gwybodaeth, rhaid ei hatodi/darparu adeg archebu**
- Rhaid derbyn ffurflenni archebu o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn i chi gyrraedd.
- **Sylwer bod ffurflenni archebu'n cael eu prosesu yn ystod oriau swyddfa'n unig - dydd Llun i ddydd Gwener, 8.00am i 3.00pm yn Llys Cartwright, a 9.00am i 5.00pm yn Llys Senghennydd.**

Cadarnhau lle:
Arosiadau tymor byr (29 noson neu lai)

- Ar ôl derbyn eich Ffurflen Archebu, byddwn yn trefnu archeb dros dro. Bydd gofyn i chi dalu am eich arhosiad cyfan cyn i chi gyrraedd i sicrhau eich archeb. **Nid yw'r taliad hwn yn ad-daladwy** (gweler 5. AD-DALIADAU, i gael mwy o fanylion)
- Ar ôl derbyn y taliad hwn, byddwch yn derbyn cadarnhad o'ch archeb a'r dyddiadau preswylio.

Arosiadau tymor hir (30 noson neu fwy)

- Ar ôl derbyn eich Ffurflen Archebu, byddwn yn trefnu archeb dros dro. Bydd gofyn i chi dalu am 30 noson cyn i chi gyrraedd i sicrhau eich archeb. **Nid yw'r taliad hwn yn ad-daladwy**
- Ar ôl derbyn y taliad hwn, byddwch yn derbyn cadarnhad o'ch archeb a'r dyddiadau preswylio.

4. <u>TALIAD</u>

- Nodir y costau ar y ffurflen archebu. Bydd gofyn i chi lofnodi'r Ffurflen Archebu ar ôl cyrraedd, a hon fydd y Cytundeb Llety
- TAW: Os yw eich arhosiad yn gysylltiedig ag astudio, rhaid darparu tystiolaeth adeg archebu os na ddylid codi TAW. Ni chodir TAW ar archebion ar gyfer 30 diwrnod neu'n hwy. Codir TAW ar y gyfradd yn ôl deddfwriaeth gyfredol
- Gellir talu drwy siec, cerdyn debyd neu gerdyn credyd. Derbynnir y rhan fwyaf o gardiau, ac eithrio cardiau AMEX a Diners
- Arosiadau tymor byr – rhaid derbyn taliad llawn cyn i chi gyrraedd
- Arosiadau tymor hir – rhaid derbyn taliad am 30 noson cyn i chi gyrraedd
  Rhaid gwneud taliadau pellach i'r Swyddfa Preswylfeydd yn Llys Cartwright neu Lys Senghennydd lle bo'n berthnasol cyn cyfnod yr arhosiad y mae'r taliad yn ymwneud ag ef
- Codir £30 am beidio â dychwelyd allweddi neu £20 am beidio â dychwelyd cardiau agor ystafell

5. <u>AD-DALIADAU</u>

- Ni roddir unrhyw ad-daliadau os byddwch yn gadael eich llety'n gynnar
- Nid yw unrhyw daliad neu cyn daliad yn ad-daladwy, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol
- Dylid gwneud ceisiadau am ad-daliadau i Dderbynfa'r Llety (gweler y manylion cyswllt isod)

6. <u>CYRRAEDD</u>

- Rhaid i westeion gyrraedd o fewn yr oriau a nodir isod:
  - Llys Senghennydd: 12.00 canol dydd i 10.00pm, saith niwrnod yr wythnos
  - Llys Cartwright: 8.00am i 3.00pm, 5pm i 10.00pm dydd Llun i ddydd Gwener. Sylwer bod y swyddfa hon ar gau ar ddydd Sadwrn a dydd Sul
- Bydd angen i chi ddod a chopi o'r llythyr sy'n cadarnhau eich archeb gyda chi pan fyddwch yn cyrraedd. Os ydych yn fyfyriwr, bydd gofyn i chi ddangos eich cerdyn adnabod myfyriwr hefyd.

7. <u>GLANHAU</u>

- Yn ystod y preswyliad, bydd y mannau cymunedol yn cael eu gwasanaethu gan ein staff domestig unwaith yr wythnos (dydd Llun i ddydd Gwener)
- Eich cyfrifoldeb chi yw glanhau'r ystafell wely astudio

8. CYNNAL A CHADW

- Dylid rhoi gwybod am unrhyw offer diffygiol neu ddifrod, neu faterion cynnal a chadw eraill, i Dderbynfa'r Llety o fewn oriau swyddfa
- Dylid rhoi gwybod am unrhyw argyfyngau y tu allan i oriau swyddfa i'r Adran Ddiogelwch trwy ffonio: +44 (0)29 2087 4444
- Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i fynd i mewn i bob Eiddo ac Ystafell ar gyfer glanhau, cynnal a chadw, arolygu neu argyfyngau
- Ystyrir bod rhoi gwybod am ddiffygion, cynnal a chadw, neu bresenoldeb pla, yn ganiatâd i fynd i mewn i'r Eiddo a/neu Ystafell heb rybudd.

9. DILLAD GWELY/LLESTRI CEGIN

- Ni ddarperir dillad gwely, ond mae pecynnau ar gael i'w llogi am £6.00 fesul pecyn dillad gwely. Os hoffech wneud cais am becyn dillad gwely, nodwch hyn ar y Ffurflen Archebu. Dylid gadael dillad gwely rydych wedi'i logi yn yr ystafell pan fyddwch yn gadael. Codir tâl i brynu eitemau newydd yn lle eitemau coll
- Ni ddarperir llestri cegin, ac fe'ch cynghorir i ddod a rhai gyda chi.

10. AMODAU CYFFREDINOL Y PRESWYLIAD

- Mae'r holl ystafelloedd yn Llety Prifysgol Caerdydd yn ystafelloedd sengl; un unigolyn yn unig sy'n cael aros ym mhob ystafell
- Ni cheir tynnu unrhyw eiddo'r Brifysgol o unrhyw breswylfa
- Codir tâl am unrhyw ddifrod, colled neu ladrad o eiddo, yr ydych chi'n gyfrifol amdano
- Os canfyddir difrod, colled neu ladrad ar ôl cwblhau archwiliad o'r eiddo ar ôl i chi adael, bydd anfoneb yn cael ei hanfon atoch ar gyfer cost adnewyddu
- Nid yw'r Brifysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am eiddo personol deiliaid
- Sŵn gormodol yw'r prif reswm dros ddrwgdeimlad rhwng deiliaid. Cadwch sŵn ar lefel resymol
- Os bydd allwedd eich ystafell yn cael ei cholli neu ei difrodi yn ystod eich arhosiad, codir tâl o £20.00 am un newydd
- Ni chaniateir ysmygu yn yr eiddo nac ar y safle, ac mae hyn yn cynnwys defnyddio e-sigaréts hefyd
- Mae gofyn i chi adael eich llety a dychwelyd eich allwedd i Dderbynfa'r Llety erbyn 10am ar y diwrnod gadael
- Os na fydd yr allwedd yn cael ei dychwelyd, byddwch yn derbyn anfoneb am £50 i dalu cost allweddi newydd
- **Mae Wi-Fi ar gael i bob gwestai. Mae pwyntiau cyswllt rhwydwaith academaidd Caerdydd ar gael i fyfyrwyr cofrestredig Prifysgol Caerdydd yn unig.** Cewch fwy o wybodaeth am y gwasanaeth ar wefan Rhwydwaith Preswylfeydd Prifysgol Caerdydd (RESLAN) yn www.caerdydd.ac.uk/insrv/reslan

11. YMDDYGIAD

- Ni fydd y Preswylydd yn gwneud unrhyw beth a allai amharu ar reolaeth dda ar yr ystâd a rhedeg llety'r Brifysgol yn hwylus ac yn effeithiol ac:
    - Ni fydd yn rhwystro staff y Brifysgol rhag cyflawni eu dyletswyddau ac yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau rhesymol gan Staff Llety ac unrhyw staff eraill neu bersonau sy'n gweithredu ar ran y Brifysgol.
    - Bydd yn ymatal rhag unrhyw ymddygiad a allai ymddangos fel aflonyddu neu annifyrrwch i breswylwyr eraill ar unrhyw sail ac yn arbennig ar sail rhyw, cenedligrwydd, hil, crefydd neu rywioldeb a chyfeiriadedd rhywiol.
    - Bydd yn ymddwyn yn ystyriol tuag at staff, ymwelwyr a chyd-breswylwyr a sicrhau nad oes unrhyw sŵn uchel y tu allan i'r ystafell ar unrhyw adeg, yn enwedig rhwng 11pm a 7am

12. IECHYD A DIOGELWCH

- Ni ddylech ymyrryd ag unrhyw systemau, arwyddion neu offer gwarchod rhag tân/larwm synhwyro tân, neu allanfeydd tân yn y safle ac ni ddylid dal drysau tân ar agor ac mae'n rhaid cadw'r holl lwybrau dianc rhag tân yn glir.
- Ni ddylech addasu nac ymyrryd ag unrhyw osodiadau trydanol gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i fesuryddion gwasanaeth trydanol, a/neu offer switsh, boeleri gwresogi nwy neu drydanol nac offer a/neu reolaethau cysylltiedig. **Sylwer: gall ymyrryd â systemau tân a systemau trydanol fod yn drosedd.**
- Ni ddylech ddefnyddio canhwyllau wedi'u cynnau, llosgyddion arogldarth na diaroglyddion aer mewn plygiau yn y Safle.
- Ni ddylech fel arall wneud unrhyw beth a allai roi iechyd a diogelwch y Preswylwyr eraill na staff y Brifysgol mewn perygl mewn unrhyw ffordd.
- Ni ddylech gadw anifeiliaid nac adar yn yr Ystafell, nac mewn mannau eraill yn y Safle.
- Dylech gael gwared ar yr holl sbwriel a'i adael yn yr ardal benodedig ar gyfer sbwriel bob dydd cyn hanner dydd. Os oes rhaid i aelod o Staff Llety gael gwared ar sbwriel, codir ffi ar y Fflat ar gyfer pob bag a symudir. Mae'n rhaid cael gwared ar wydr, caniau wedi'u hagor neu unrhyw eitemau a allai fod yn beryglus yn ddiogel.
- Gall y Brifysgol gael gwared ar unrhyw eitem o ddodrefn, offer neu eiddo arall sydd, yn ei barn resymol, yn risg i iechyd a diogelwch pobl eraill. Bydd eitemau o'r fath yn cael eu cadw gan y Brifysgol ar draul resymol y Preswylydd ac yn cael eu dychwelyd pan fydd y Preswylydd wedi gwneud trefniadau i'w symud o'r safle yn unig. Os bydd y Preswylydd yn methu â gwneud trefniadau o'r fath a bod yr eitem ym meddiant y Brifysgol ar ddiwedd y Cyfnod Preswyl, bydd y Brifysgol yn cael gwared arni. Fel arall, efallai y bydd y Brifysgol yn ôl ei disgresiwn rhesymol yn trosglwyddo'r eitem i'r heddlu.

13. GADAEL

- Mae gofyn i chi adael eich llety a dychwelyd eich allwedd i'r Dderbynfa erbyn 10am ar y diwrnod gadael
- Os byddwch yn dychwelyd eich allwedd ar y diwrnod gadael ar ôl 10am, codir tâl am aros noson ychwanegol
- Os yw eich amser gadael y tu allan i oriau gwaith, bydd angen i chi ffonio'r Dderbynfa cyn i chi adael er mwyn trafod trefniadau gadael
- Codir tâl o £50 am allweddi na fyddant yn cael eu dychwelyd

14. DIOGELWCH TÂN

Darllenwch yr hysbysiad tân sydd wedi'i leoli yn eich ystafell; bydd hwn yn dangos ble mae'r man ymgynnull.

Ar ôl clywed y larwm:

- Gadewch yr adeilad trwy'r allanfa agosaf (bob tro y mae'r larwm yn canu)
- Caewch pob drws / ffenestr wrth i chi adael, os yw'n ddiogel i wneud hynny
- Peidiwch ag aros i gasglu eiddo personol.
- Peidiwch byth â dychwelyd i'r adeilad hyd nes y cewch wybod ei bod hi'n ddiogel i wneud hynny

Ar ôl darganfod tân:
- Canwch y larwm
- Gadewch yn ddigynnwrf, ac os oes gennych westai, ewch â nhw gyda chi
- Peidiwch byth â defnyddio dŵr ar dân hylif fflamadwy
- Galwch am gymorth

Rhaid i'r holl breswylwyr gydymffurfio ag arweiniad a rheoliadau iechyd a diogelwch, a diogelwch tân y Brifysgol.

15. COSTAU YCHWANEGOL

- Os byddwch yn colli neu'n difrodi allwedd neu gerdyn eich ystafell yn ystod eich arhosiad, codir tâl am un newydd. Codir £20 am allweddi a £10 am gardiau agor ystafell.
- Difrod, colled neu ladrad o eiddo'r Brifysgol - cost lawn atgyweirio neu adnewyddu
- Cadw drysau tân ar agor - £10.00 fesul unigolyn
- Ymyrryd ag offer tân, gan gynnwys gorchuddio synwyryddion tân, torri gwydrau ac ati - £50.00 fesul pob eitem o offer tân
- Gollwng diffoddwyr tân - £50.00 fesul diffoddwr
- Difrod i unrhyw offer tân - isafswm o £50.00
- Ysmygu mewn eiddo di-fwg - cosb sefydlog o £50.00 a gyflwynir gan yr awdurdod lleol

Sylwer: Bydd Llety Haf Myfyrwyr yn cau am
10.00am, dydd Mercher 12 Medi 2018

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â Derbynfa'r Llety

Llety	E-bost	Ffôn
Llys Cartwright	SummerCartwright@caerdydd.ac.uk	+44 (0)29 2081 0596
Llys Senghennydd	SummerSenghennydd@caerdydd.ac.uk	+44 (0)29 2087 5709